# Galluedd meddyliol a gofal iechyd

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Mae gan Sophie anabledd dysgu difrifol ond mae'n defnyddio Makaton, cardiau llun a phasbort ysbyty i gyfathrebu.
- Cafodd ei diystyru i ddechrau – roedd gweithwyr proffesiynol yn cymryd nad oedd yn gallu ymgysylltu.
- Galluogodd cyfathrebu â chymorth iddi fynegi ei hofnau (ysbytai) a'i gobeithion (teimlo'n well, gwenu eto).

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut wnaeth pasbort ysbyty sicrhau bod llais Sophie yn cael ei glywed?
- Sut mae osgoi cymryd bod pobl yn ddi-eiriol = amharod i gyfathrebu?

**Gweithgaredd**
Mewn grwpiau, dyluniwch basbort ysbyty byr ar gyfer Sophie (ei hoff bethau, ei chas bethau, sbardunau, anghenion cymorth).

## 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Crawniad heb ei drin = risg sy'n peryglu bywyd.
- Gofid emosiynol yn gwaethygu oherwydd ofn ysbytai.
- Heb baratoi, risg o orfodaeth, tawelyddu'n ddiangen, neu drawma
- Galluogodd addasiadau cadarnhaol (pasbort, paratoi, cynnwys y teulu) driniaeth ddiogel heb dawelyddu.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut mae anghenion iechyd corfforol a rhwystrau emosiynol yn rhyngweithio?
- Pa wahaniaeth wnaeth y paratoi i ofal Sophie?

**Gweithgaredd**
**Mapio achos:** olrhain taith o'r argyfwng → Opsiwn cyfyngol → cynllun lleiaf cyfyngol.

## 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Rhaid i weithwyr proffesiynol ddiogelu iechyd a hawliau Sophie.
- Roedd cais DoLS yn rhoi diogelwch cyfreithiol, ond yr egwyddor lleiaf cyfyngol oedd yn llywio'r penderfyniadau.
- Roedd cynnwys mam ac addasu'r amgylchedd yn lleihau'r angen am orfodaeth.
- Diogelu = amddiffyn llesiant ac urddas.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Pam bod angen DoLS hyd yn oed heb dawelyddu?
- Beth mae "lleiaf cyfyngol" yn ei olygu yn ymarferol?

**Gweithgaredd**
**Cyfarfod ffug llesiant gorau:** Cymharu 3 opsiwn (1) tawelyddu/ynysu, (2) DoLS gyda chyfyngiadau (3) DoLS gyda phasbort + Cymorth i'r Teulu.

## 4 Myfyrdodau proffesiynol

- I ddechrau, anwybyddodd gweithwyr proffesiynol allu Sophie i ymgysylltu.
- Parhaodd y cydlynydd â chyfathrebu creadigol a hygyrch.
- Teimlai Mam ei bod yn cael ei chlywed am y tro cyntaf → Cafwyd mwy o ymddiriedaeth.
- Myfyrio: a yw cynlluniau cyfyngol yn cael eu defnyddio am nad ydym wedi rhoi cynnig ar ddigon o ddewisiadau eraill?

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Pa ragdybiaethau gafodd eu herio yma?
- Sut wnaeth dull y cydlynydd newid y canlyniadau?

**Gweithgaredd**
**Ysgrifennu myfyriol:** disgrifiwch adeg pan gafodd cyfyngiadau eu defnyddio – a allai dulliau creadigol fod wedi lleihau'r defnydd ohonynt?

## 5 Penblethau moesegol ac emosiynol

- Roedd Mam yn teimlo ei bod wedi'i gwthio i'r cyrion ("Dim ond ei mam ydw i").
- Tensiwn moesegol: anghenion iechyd brys yn erbyn urddas, ymreolaeth, a chyfranogiad y teulu.
- Datrysiad cadarnhaol: mam yn cael ei chydnabod fel partner, nid fel rhywun sy'n sefyll yn gwylio.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut mae cefnogi teuluoedd sy'n teimlo eu bod wedi'u heithrio?
- Pa heriau moesegol sy'n codi pan fydd mesurau diogelwch cyfreithiol yn gwrthdaro ag emosiynau?

**Gweithgaredd**
**Trafodaeth:** dadansoddi datganiad "Nid Mam yn unig ydw i, rwy'n ofalwr"

## 6 Dysgu ymarferol

- Mae DoLS yn diogelu, nid yw'n gosb
- Ceisio'r dewis lleiaf cyfyngol bob amser.
- Mae offer cyfathrebu (Makaton, lluniau, pasbort) yn lleihau cyfyngiadau
- Mae gwybodaeth gan y teulu'n hanfodol (sbardunau cudd, arferion).
- Mae partneriaeth yn gwella diogelwch, cydymffurfiaeth ac urddas.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut wnaeth y pasbort ysbyty leihau'r defnydd o gyfyngiadau?
- O ystyried achos Sophie, pa wersi sy'n berthnasol yn ehangach?

**Gweithgaredd/chwarae rôl**
**Cyn chwarae rôl ac ar ôl chwarae rôl:**
(1) Tawelyddu ac eithrio yn erbyn
(2) Pasbort a chymorth teulu → cymharu'r canlyniadau.

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yn gymwys yng Nghymru)** – egwyddorion galluedd, lles pennaf, yr opsiwn lleiaf cyfyngol.
- **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)** – yn dal mewn grym yng Nghymru (LPS heb ei weithredu eto, 2025).
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – oedolion mewn perygl, galluedd, lles pennaf.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014** – dyletswyddau eiriolaeth, fframwaith diogelu.
- **GIG Cymru: Proffiliau Iechyd a Phasbortau Ysbyty** ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu.

# Galluedd meddyliol a gofal iechyd

**Rhan B: Taflen**

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Cydbwyso anghenion iechyd brys â hawliau, urddas a'r arferion lleiaf cyfyngol.**

### Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Mae Sophie yn cyfathrebu drwy Makaton, lluniau, pasbort.
- Rhagdybiwch y galluedd i fynegi anghenion bob amser.

### Myfyrdodau Proffesiynol

- Roedd tybiaethau cychwynnol yn cyfyngu ar lais Sophie.
- Cafwyd llwyddiant drwy greadigrwydd a dyfalbarhad.

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Crawniad = perygl i fywyd.
- Roedd ofn ysbytai yn dwysáu'r gofid.
- Drwy wneud addasiadau roedd modd rhoi triniaeth yn ddiogel heb dawelyddu.

### Penblethau Moesegol ac Emosiynol

- Mam yn cael ei gwthio i'r cyrion → niwed emosiynol.
- Adferwyd ymddiriedaeth ac urddas drwy bartneriaeth.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Diogelu iechyd a hawliau
- Defnyddio DoLS os na ellir osgoi cyfyngiadau.
- Ceisio'r opsiwn lleiaf cyfyngol bob amser.

### Dysgu ymarferol

1. Asesu galluedd a chyfathrebu.
2. Creu pasbort ysbyty.
3. Cynnwys teulu fel partneriaid.
4. Defnyddio DoLS os oes angen cyfyngiadau.
5. Dewis yr opsiwn lleiaf cyfyngol.
6. Adolygu a myfyrio.

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (yn gymwys yng Nghymru)** – egwyddorion galluedd, lles pennaf, yr opsiwn lleiaf cyfyngol.
- **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)** – yn dal mewn grym yng Nghymru (LPS heb ei weithredu eto, 2025).
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – oedolion mewn perygl, galluedd, lles pennaf.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014** – dyletswyddau eiriolaeth, fframwaith diogelu.
- **GIG Cymru Proffiliau Iechyd a Phasbortau Ysbyty** ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu